



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mai 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 05 Awst 2019

Trosolwg

Hoffem gael eich barn ar y cod ymarfer diwygiedig ar fesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Sut i ymateb

Rhowch destun i esbonio sut mae ymateb i'r ymgynghoriad, e.e. drwy ddefnyddio'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen, drwy fynychu digwyddiad neu drwy lenwi ffurflen ar-lein.

Cangen Llesiant a Gwella
Is-adran Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:

GwellaGwasanaethauCymdeithasol@gov.wales

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Cynhwyswch gyfeiriadau at y rhyngrwyd neu at ddogfennau neu wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i'r rhai yr ymgynghorir â nhw, ee cyfeiriad y tudalennau ymgynghori ar y we, neu atodiadau manwl i'r ymgynghoriad.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Llesiant a Gwella
Is-adran Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:

GwellaGwasanaethauCymdeithasol@gov.wales

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gcontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Rhagair

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y **Cod Ymarfer a'r Canllawiau Technegol ategol ar gyfer y Metrigau Meintiol**. Y nod yw i'r Cod Ymarfer a'r canllawiau helpu awdurdodau lleol a'r sector ehangach i ddarparu'r Ddeddf yn effeithiol er mwyn gwella canlyniadau llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Yn benodol, mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar sut dylid mesur perfformiad awdurdodau lleol a'r Safonau Ansawdd drafft y dylai pob awdurdod lleol fod yn gweithio tuag atynt, mae'n cyflwyno'r Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd ac yn amlinellu'r data meintiol y bydd hi'n ofynnol i awdurdodau lleol eu casglu.

Cefndir

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r sail gyfreithiol i wella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, ac i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn adeiladu ar y Papur Gwyn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu a gyhoeddwyd yn 2011.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am fonitro effaith y Ddeddf ar bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Er mwyn cyflawni hyn, rhoddwyd amrywiaeth o ddangosyddion canlyniadau a mesuriadau perfformiad ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol¹
- Y Fframwaith Mesur Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Lleol²
- Data Gweithgarwch Awdurdodau Lleol
- Canlyniadau Llesiant Personol

Cafodd y Fframwaith Mesur Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Lleol presennol ei gyhoeddi yn 2016 fel Cod Ymarfer³. Mae'r fframwaith hwn yn canolbwyntio ar dri phrif faes – safonau ansawdd, mesuriadau ansoddol a mesuriadau meintiol – ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol grynhoi data mewn perthynas â'r meysydd hyn. Mae adborth gan awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ynghylch ansawdd y data a gyflwynwyd wedi dangos nad yw model presennol y fframwaith yn gweithio yn ôl y bwriad a bod angen ei fireinio. Mae'r adborth hwn wedi bod yn gyson ar draws y sector, ac mae'n cynnwys materion megis y canlynol:

- mae'r mesuriadau perfformiad presennol yn darparu data ar weithgarwch yn hytrach na mesuriadau ar berfformiad
- nid yw'r mesuriadau yn adlewyrchu'n gywir yr amrywiaeth o gymorth mae awdurdodau lleol yn ei ddarparu mewn perthynas â'r Ddeddf
- nid yw'r mesuriadau yn ymestyn yr awdurdodau lleol nac yn darparu fframwaith iddynt sy'n cefnogi eu gwelliant

¹ <https://gweddi.gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?skip=1&lang=cy>

² <https://gweddi.gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/performance/?skip=1&lang=cy>

³ <https://gweddi.gov.wales/docs/dhss/publications/160401codecy.pdf>

- nid yw elfen ansoddol y fframwaith – yr Arolwg Dinasyddion – yn ddigon da ac mae wedi cynhyrchu cyfradd ymateb isel
- nid yw'r safonau ansawdd yn gosod gweledigaeth ddigon cryf ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru

I fynd i'r afael â'r materion hyn, cynhaliwyd amrywiaeth o weithdai gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Trwy'r gweithdai, awgrymwyd y dylid datblygu Fframwaith Perfformiad a Gwella ehangach a mwy cynhwysfawr a'i gysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ynghyd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yr ymagwedd newydd

Datblygwyd yr ymagwedd newydd i ganolbwyntio ar berfformiad a gwella yn gyfartal. Mae'n cynnwys datblygu Safonau Ansawdd newydd ochr yn ochr â Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd.

Safonau Ansawdd:

Mae'r Safonau Ansawdd wedi'u hamlinellu'n llawn yn y Cod Ymarfer drafft.

Mae'r Safonau Ansawdd yn amlinellu'r gofynion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu bodloni mewn perthynas â'r Ddeddf. Maent yn amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol o ansawdd y cymorth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol fod yn ei ddarparu.

Disgwylir i awdurdodau lleol ddangos eu cynnydd yn erbyn y Safonau Ansawdd yn flynyddol trwy Adroddiad y Cyfarwyddwr. Rhaid i'r dystiolaeth hon fod yn gyfuniad o'r data a'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r Fframwaith Perfformiad a Gwella, ochr yn ochr ag unrhyw ddata lleol neu ymagweddau eraill y mae'r awdurdodau lleol yn eu hystyried yn briodol iddynt.

Y Fframwaith Perfformiad a Gwella

Mae'r Fframwaith Perfformiad a Gwella wedi'i amlinellu'n fanwl yn y Cod Ymarfer drafft.

Dyluniwyd y Fframwaith Perfformiad a Gwella i helpu awdurdodau lleol i ddangos tystiolaeth o'u cynnydd yn erbyn y Safonau Ansawdd. Bydd y data a'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r fframwaith yn darparu i awdurdodau lleol ystod o ddata a thystiolaeth y mae'n rhaid iddynt eu defnyddio i fesur eu perfformiad mewn perthynas â'r Ddeddf ac i lywio eu gweithgareddau gwella.

Mae'r Fframwaith Perfformiad a Gwella yn cynnwys tair rhan, sef:

- Data meintiol
- Data ansoddol
- Ymchwil a thystiolaeth

Dogfennau Newydd

I gefnogi'r ymagwedd newydd hon, cynhyrchwyd dwy ddogfen newydd:

- Cod Ymarfer newydd
- Canllawiau Technegol newydd ar gyfer y Metrigau Meintiol.

Cod Ymarfer

Mae'r drafft o'r Cod Ymarfer newydd yn Atodiad A.

Mae'r Cod Ymarfer yn amlinellu'r Safonau Ansawdd a'r Fframwaith Perfformiad a Gwella fel y ddau brif ddull atebolrwydd a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i fonitro perfformiad awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Ddeddf.

Mae'r Cod Ymarfer yn amlinellu hefyd bwysigrwydd gwelliant parhaus a sut dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r dulliau atebolrwydd a amlinellir yn y Cod hwn i lywio eu gwelliant eu hunain fel sefydliadau ac i lywio'r gwelliant yng nghanlyniadau pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Canllawiau Technegol ar gyfer y Metrigau Meintiol

Mae'r Canllawiau Technegol drafft yn Atodiad B.

Mae'r Canllawiau Technegol yn amlinellu'r Data Meintiol a gesglir fel rhan o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella ehangach. Mae'r canllawiau'n nodi'r metrigau a ddefnyddir i adlewyrchu'r amrywiaeth eang o weithgarwch y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd ag ef mewn perthynas â'r Ddeddf.

Bydd canllawiau ar wahân yn cael eu datblygu ar gyfer elfennau Data Meintiol ac Ymchwil a Thystiolaeth y fframwaith, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

C1. I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd y **Cod Ymarfer** (a amlinellir yn Atodiad A) yn helpu awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliant mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf?

C2. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y **Safonau Ansawdd** (a amlinellir yn y Cod Ymarfer) yn galluogi awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliant mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf?

C3. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y **Fframwaith Perfformiad a Gwella** (a amlinellir yn y Cod Ymarfer) yn galluogi awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliant mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf?

C4. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y metrigau yn y **Canllawiau Technegol** yn dangos yr ystod lawn o weithgareddau y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgymryd â nhw mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf?

C5. Gan ystyried y metrigau a amlinellir yn y **Canllawiau Technegol**, a oes gennych chi unrhyw sylwadau penodol mewn perthynas â'r metrigau a gynigir? Cofiwch gynnwys cyfeirnod y metrig yn eich ymateb.

Fel rhan o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella arfaethedig, awgrymir y dylai awdurdodau lleol gasglu data a thystiolaeth mewn perthynas â thri maes penodol, sef data meintiol, data ansoddol ac ymchwil a thystiolaeth. Nod y dull hwn yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu creu darlun llawn a chyfannol o'u perfformiad a'u gwelliant mewn perthynas â'r Ddeddf a deall yr effaith y maent yn ei chael ar ganlyniadau llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Nod y data ansoddol yw darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol am brofiadau pobl o ofal cymdeithasol, ynghyd ag a ydynt yn cyflawni eu canlyniadau llesiant ac, os felly, sut.

Y bwriad yw datblygu ymagwedd newydd at yr Arolwg Dinasyddion i gasglu data arolwg gan oedolion, plant, gofalwyr a rhieni ac i archwilio sut gall data ansoddol gael ei gasglu'n fwy effeithiol i ddeall profiadau pobl o ofal a chymorth a phrofiadau gofalwyr o gymorth.

C6. Mae elfen ansoddol y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn dal i gael ei datblygu. Gan feddwl am **Ddata Ansoddol** yn benodol, beth ddylai gael ei gynnwys yn yr elfen hon yn eich barn chi fel y gallwn ni ddeall a gwella profiadau pobl o ofal a chymorth a phrofiadau gofalwyr o gymorth?

Bwriad elfen Ymchwil a Thystiolaeth y Fframwaith Perfformiad a Gwella yw galluogi awdurdodau lleol i ddeall y cyd-destun gofal cymdeithasol ehangach a sut gellir gwella eu darpariaeth a'u hymarfer. Disgwylir i awdurdodau lleol ddefnyddio tystiolaeth ymchwil i lywio eu gwasanaethau, i sbarduno gwelliant ac i nodi arfer gorau. Yn ogystal, disgwylir i awdurdodau lleol gomisiynu neu gynnal eu hymchwil eu hunain yn y meysydd sydd bwysicaf iddynt.

C7. Mae elfen Ymchwil a Thystiolaeth y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn dal i gael ei datblygu. Gan feddwl am **Ymchwil a Thystiolaeth** yn benodol, beth ddylai gael ei gynnwys yn yr elfen hon yn eich barn chi fel y gallwn ni ddeall a gwella profiadau pobl o ofal a chymorth a phrofiadau gofalwyr o gymorth?

Fel rhan o'r trefniadau presennol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno data blynyddol ar gyfer y Cyfrifiad Plant sy'n derbyn Gofal a Chymorth, y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, y ffurflen Diogelu Oedolion a'r ffurflen Staff adrannau awdurdodau lleol. Mae'r dulliau hyn wedi hen ennill eu plwyf ac yn darparu i awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill bob math o ddata o safon uchel sy'n berthnasol i blant sy'n derbyn gofal a chymorth. Cynigir yn yr ymgynghoriad hwn na ddylid newid y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth na'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal ac y dylid eu cynnwys yn y Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd. Mae'r cyfrifiadau wedi'u cynnwys yn Atodiadau C a D er hwylustod cyfeirio.

C8. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, y ffurflen Diogelu Oedolion a'r ffurflen Staff adrannau awdurdodau lleol yn addas i'r diben ac y dylid eu cynnwys fel y maent yn y Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd?

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu Cyfrifiad Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth ar ben y data a gesglir trwy'r Fframwaith Perfformiad a Gwella. Byddai hyn yn disodli'r ffurflen Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth ac yn galluogi data i gael ei fonitro ar lefel unigolyn ac yn darparu darlun mwy cywir o'r effaith mae'r Ddeddf yn ei chael ar oedolion sydd angen gofal a chymorth. Byddai hyn yn unol â'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth a'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal presennol.

C9. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cyfrifiad blynyddol ar gyfer Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth?

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y Cod Ymarfer a'r Fframwaith Perfformiad a Gwella arfaethedig yn darparu ymagwedd wahanol iawn at ddata a gwella. Efallai y bydd angen i Awdurdodau Lleol gael mynediad at gymorth ychwanegol i helpu i baratoi a gweithredu'r fframwaith newydd hwn.

C10. Pa gymorth ychwanegol, os o gwbl, y mae angen i Lywodraeth Cymru ei roi ar waith i helpu awdurdodau lleol i roi'r Cod Ymarfer a'r Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd ar waith?

Rhagwelir y bydd angen i'r Fframwaith Perfformiad a Gwella arfaethedig barhau i ddatblygu wrth i'r Ddeddf ddechrau ennill ei phlwyf. O ganlyniad i hyn, disgwylir y bydd angen datblygu ffyrdd o fesur gwaith integredig er mwyn mesur cynnydd yr integreiddio. Mae'n debygol y bydd y metrigau ar y cyd hyn yn canolbwyntio ar y rhyngddibyniaethau rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, addysg a thai. Ni fydd metrigau ar y cyd yn cael eu cynnwys yn y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer ei lansiad ym mis Ebrill 2020; byddant yn cael eu datblygu i'w rhoi ar waith yn ddiweddarach.

C11. Pa fertigau y dylid eu datblygu i fesur effaith ac effeithiolrwydd integreiddio a ffyrdd o weithio'n integredig?

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Mae nodweddion gwarchoddedig fel a ganlyn: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

C12a. Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam lai?

Esboniwch:

C12b. Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam lai?

Esboniwch:

Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, ac yn benodol ar

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

C13a. Pa effeithiau fyddai hyn yn eu cael yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Esboniwch:

C13b. Esboniwch hefyd sut credwch chi y gallai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid:

- i) fel y bydd yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel na fydd yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ffurflen Ymateb i'r
Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n
berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Dylid dychwelyd yr ymatebion erbyn **05 Awst 2019** i

Cangen Llesiant a Gwella
Is-adran Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu eu llenwi'n electronig a'u hanfon at:

e-bost: _GwellaGwasanaethauCymdeithasol@gov.wales

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

C1. I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd y **Cod Ymarfer** (a amlinellir yn Atodiad A) yn helpu awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliant mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

Sylwadau:

C2. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y **Safonau Ansawdd** (a amlinellir yn y Cod Ymarfer) yn galluogi awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliant mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

Sylwadau:

C3. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Fframwaith Perfformiad a Gwella (a amlinellir yn y Cod Ymarfer) yn galluogi awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliant mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

Sylwadau:

C4. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y metrigau yn y **Canllawiau Technegol** yn dangos yr ystod lawn o weithgareddau y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgymryd â nhw mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

Sylwadau:

C5. Gan ystyried y metrigau a amlinellir yn y Canllawiau Technegol, a oes gennych chi unrhyw sylwadau penodol mewn perthynas â'r metrigau a gynigir? Cofiwch gynnwys cyfeirnod y metrig yn eich ymateb.

Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

Sylwadau:

C6. Mae elfen ansoddol y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn dal i gael ei datblygu. Gan feddwl am **Ddata Ansoddol** yn benodol, beth ddylai gael ei gynnwys yn yr elfen hon yn eich barn chi fel y gallwn ni ddeall a gwella profiadau pobl o ofal a chymorth a phrofiadau gofalwyr o gymorth?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

Sylwadau:

C7. Mae elfen Ymchwil a Thystiolaeth y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn dal i gael ei datblygu. Gan feddwl am **Ymchwil a Thystiolaeth** yn benodol, beth ddylai gael ei gynnwys yn yr elfen hon yn eich barn chi fel y gallwn ni ddeall a gwella profiadau pobl o ofal a chymorth a phrofiadau gofalwyr o gymorth?

Sylwadau:

C8. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, y ffurflen Diogelu Oedolion a'r ffurflen Staff adrannau awdurdodau lleol yn addas i'r diben ac y dylid eu cynnwys fel y maent yn y Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

Sylwadau:

C9. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cyfrifiad blynyddol ar gyfer Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth?

Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

Sylwadau:

C10. Pa gymorth ychwanegol, os o gwbl, y mae angen i Lywodraeth Cymru ei roi ar waith i helpu awdurdodau lleol i roi'r Cod Ymarfer a'r Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd ar waith?

Sylwadau:

C11. Pa fertigau y dylid eu datblygu i fesur effaith ac effeithiolrwydd integreiddio a ffyrdd o weithio'n integredig?

Esboniwch:

C12a. Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam lai?

Esboniwch:

C12b. Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam lai?

Esboniwch:

C13a. Pa effeithiau fyddai hyn yn eu cael yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Esboniwch:

C13b. Esboniwch hefyd sut credwch chi y gallai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid:

i) fel y bydd yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

ii) fel na fydd yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Esboniwch:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n ddienw, rhowch dic yma: